**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

# Adroddiad Gwrthwynebiad yn Dilyn Ymgynghoriad

Cynnig i gynyddu lleoedd disgyblion o 154 i 210 yn
Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, Y Santes Fair, Brymbo
gyda'r potensial i gynyddu ymhellach i 315 os bydd angen o ganlyniad i ddatblygiadau tai yn y dyfodol.

**Ael-y-Bryn**
**Brymbo**
**Wrecsam**
**LL11 5DA**

# Cynnwys

Hysbysiad Statudol.......... 3
Cyhoeddi Hysbysiad Statudol.......... 6
Rhestr o’r rhai a ymgynghorwyd â nhw.......... 7
Gwrthwynebiad.......... 8
Ymateb yr Awdurdod Lleol i’r Gwrthwynebiadau.......... 8
Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol.......... 9

# Hysbysiad Statudol

**Hysbysiad Statudol i gynyddu capasiti disgyblion yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo o 154 i 210 gyda'r potensial i gynyddu ymhellach i 315 os bydd angen o ganlyniad i ddatblygiadau tai yn y dyfodol.**
**Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (2018)**

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**

Rhoddir rhybudd drwy hyn yn unol ag adran 41 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, ar ôl ymgynghori ag unigolion perthnasol, yn cynnig cynyddu capasiti disgyblion yn ysgol gynradd Wrecsam, Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Bryn Coch, Ael-Y-Bryn, Brymbo, Wrecsam, LL11 5DA o 154 i 210 o Fedi 2025. Mae'r cynnydd mewn capasiti yn amodol ar gael caniatâd cynllunio ar safle newydd ar hen safle Gwaith Dur Brymbo, LL11 5FS. Heb ganiatâd cynllunio, ni ellir cynyddu'r capasiti.

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion, ymatebion y cynigydd ac ymateb llawn Estyn, ar gael ar wefan yr awdurdod lleol yn Ymgynghoriad Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Bwriedir gweithredu'r cynnig o Fedi 2025.

Cynigir ein bod yn rheoli twf yr ysgol yn ofalus i sicrhau cynaliadwyedd ac osgoi lleoedd gwag ychwanegol yn y grwpiau blwyddyn uwch.  Er mwyn i'r ysgol reoli'r twf, awgrymir bod y nifer derbyn yn cynyddu'n flynyddol o fis Medi 2025.

Bwriedir gweithredu'r cynnig fesul cam gan ddechrau ym mis Medi 2025 fel a ganlyn:

**Cam 1** – Ar 1 Medi 2025 bydd yr ysgol yn cynyddu'r nifer a gaiff eu derbyn o 22 i 30 o ddisgyblion ar gyfer y dosbarth Meithrin ac o 22 i 30 o ddisgyblion ar gyfer y dosbarth Derbyn ar gyfer mynediad pob blwyddyn.  Bydd yr holl grwpiau blwyddyn presennol yn parhau yn 22.

**Cam 2** – Ar 1 Medi 2026 bydd hyd at 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin a hyd at 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn.  Bydd y disgyblion presennol yn y dosbarth derbyn yn symud ymlaen i Flwyddyn 1.

**Cam 3** – Ar 1 Medi 2027 bydd hyd at 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin a hyd at 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flwyddyn 1 a 2.

**Cam 4** – Ar 1 Medi 2028 bydd hyd at 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin a hyd at 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flwyddyn 1, 2 a 3.

**Cam 5** – Ar 1 Medi 2029 bydd hyd at 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin a hyd at 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flwyddyn 1, 2, 3 a 4.

**Cam 6** – Ar 1 Medi 2024 bydd hyd at 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Meithrin a hyd at 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flynyddoedd 1, 2, 3, 4 a 5.

**Cam 7** – Ar 1 Medi 2025 bydd hyd at 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Meithrin a hyd at 30 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6.

Bydd gan yr ysgol ar ei ffurf newydd le i 210 o ddisgyblion a lle i 30 o blant meithrin rhan amser.

Bydd y Santes Fair, Brymbo arfaethedig yn parhau yn ysgol gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo fydd yr awdurdod derbyn.

Ymdrinnir â chludiant ar gyfer disgyblion drwy gyfeirio at Bolisi Cludiant Ysgol yr Awdurdod Lleol.

Polisi Cludiant. Mae manylion Polisi Derbyn a Pholisi Cludiant Ysgol yr Awdurdod Lleol ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

**Cyfnod Gwrthwynebu**

O fewn cyfnod o 28 diwrnod i ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn 7 Mehefin 2024, gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion. Dylid anfon gwrthwynebiadau at:

Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Adeiladau'r Goron
31 Stryt Caer
Wrecsam
LL13 8BG

Neu dros e-bost at: StMarysBrymboConsultation@wrexham.gov.uk

Llofnodwyd ........................................

Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar

Dyddiad …………………………………

## Cyhoeddi Hysbysiad Statudol

Ar 29 Ebrill 2024, cyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yr Hysbysiad Statudol mewn cysylltiad â chynyddu capasiti disgyblion yn ysgol gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Bryn Coch, Ael-y-Bryn, Brymbo, Wrecsam LL11 5DA o 154 i 210 o fis Medi 2025.

Roedd cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol yn nodi dechrau Cyfnod Gwrthwynebu ffurfiol 28 diwrnod a ddaeth i ben ar 7 Mehefin 2024.

Mae'r Hysbysiad Statudol wedi'i gyhoeddi yn unol ag Adran 41 a 43 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i God Trefniadaeth Ysgolion 2018 gael ei ddefnyddio ac i roi arweiniad i gyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu).

Cafodd copïau o'r Hysbysiad Statudol eu hanfon at bob ymgynghorai drwy gopïau caled e-bost a hefyd ar gael drwy ddolen ar y wefan.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam hefyd.

Ymgynghoriad ar Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair Brymbo | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Isod mae'r rhestr o'r rhai a dderbyniodd gopi o'r Hysbysiad Statudol gan eu bod yn rhan o'r ymgynghoriad, yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

## Rhestr o'r rhai a ymgynghorwyd â nhw

Gofynnwyd i ystod o unigolion am eu barn am y cynnig gan gynnwys:

- Aelodau Etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Yr Eglwys yng Nghymru ac Esgobaeth Gatholig
- Awdurdodau Lleol Eraill: Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Swydd Amwythig, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Powys, Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chyngor Caer.
- Corff Llywodraethu Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Cyrff Llywodraethu Holl Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Wrecsam
- Holl Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Wrecsam, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion Ffydd ac ysgolion Arbennig.
- Rhieni/Gofalwyr (a darpar rieni/gofalwyr) Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Aelodau o staff Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Cyngor Cymuned Brymbo
- Fforwm Cymraeg Mewn Addysg, yn cynnwys Menter Iaith Fflint a Wrecsam, RhAG a Mudiad Meithrin
- Gweinidogion Cymru ac Aelodau'r Senedd: Lesley Griffiths AS, Ken Skates AS, Llyr Gruffydd AS, Mark Isherwood AS, Carolyn Thomas AS, Sam Rowlands AS (Llywodraeth Cymru)
- Aelodau Seneddol Lleol: Sarah Atherton AS, Simon Baynes AS (Llywodraeth y DU)
- Estyn a GwE
- Undebau Llafur yn cynrychioli athrawon a staff yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Adran Drafnidiaeth Ysgolion Cyngor Wrecsam
- Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf Lleol
- Darparwyr Meithrinfa Annibynnol Leol, Cylchoedd Chwarae, Gofalwyr Plant a Darparwyr Dechrau'n Deg
- Y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
- Y Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

Nid yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr ac roedd yr ymgynghoriad ar agor i bawb oedd yn dymuno cymryd rhan.

## Gwrthwynebiad

Rhwng 29 Ebrill 2024 a 7 Mehefin 2024, derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam un gwrthwynebiad mewn perthynas â'r cynnig hwn. Y gwrthwynebiad:

*Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi gadael Brymbo gan nad oedd yna lawer yn mynd i'r Eglwys. Roedd ambell un wedi prynu adeilad yr Eglwys i atal ei werthu fel cartref seciwlar. Pam ddylai'r enwad hwn dderbyn safle breintiedig? Dylai ysgol gynradd newydd fod yn seciwlar ac yn cynnwys pob cefndir.*

## Ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Gwrthwynebiadau

Mewn ymateb i'r gwrthwynebiad, mae'r Awdurdod Lleol yn dymuno amlygu'r pwyntiau canlynol:

- Cafodd yr ymgynghoriad ei gynnal ar ran ac mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Blwyfol ac Esgobaeth wnaeth fynegi eu dymuniad na fyddai yna unrhyw newid i statws yr ysgol.
- Mae'r Ymddiriedolaeth Blwyfol a'r Esgobaeth yn ariannu 15% o'r gost gyfalaf ar gyfer yr ysgol newydd. Nid oes yna fuddsoddiad cyfalaf gan CBSW.
- Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys pob cefndir yn ei hanfod.
- Mae'n bwysig fel Awdurdod Lleol ein bod yn sicrhau fod gan rieni ystod o ddewis ar gyfer ysgolion sy'n cwmpasu Ffydd, Cyfrwng Cymraeg a Chyfrwng Saesneg.
- Mae yna ysgol ffydd wedi bod ym mhentref Brymbo ers 1872. Symudodd yr ysgol i'r lleoliad presennol yn 1972.
- Byddai yna effaith sylweddol os na fyddai'r Santes Fair, Brymbo yn cynnig addysg seiliedig ar Ffydd mwyach, o ran pellter y byddai'r rhieni angen teithio ac o ran cynnydd posibl mewn costau teithio.

Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar gael i Aelodau Etholedig at ddibenion gwneud penderfyniadau.

## Penderfyniad y Bwrdd Gweithredol

Bydd Bwrdd Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cyfarfod ar **17 Medi 2024** i drafod yr Adroddiad Gwrthwynebiad ar gyfer y cynnig i gynyddu capasiti disgyblion yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo o 154 i 210 gyda'r potensial i gynyddu ymhellach i 315 os bydd angen o ganlyniad i ddatblygiadau tai yn y dyfodol.

**Gofynnir i'r Bwrdd Gweithredol am gymeradwyaeth i symud ymlaen gyda'r cynnig fel y'i cyhoeddwyd. Dyma fydd y penderfyniad terfynol mewn perthynas â'r cynnig.**

Bydd hysbysiad penderfyniad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Wrecsam a byddwn yn rhoi gwybod i'r holl ymgyngoreion.